

Teitl:	Swyddog Datblygu Gofal Plant
Lleoliad:	Gweithio Ystwyth / Canolfan Integredig Plant Calon y Cymoedd, Blaenau, NP13 3BN
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Cymdeithasol
Rhif Cyf:	BG09788
Cyflog:	Gradd 6 (£30,825 - £34,834)
Oriau:	37 awr
Cytundeb:	Cyfnod Penodol tan 31 Mawrth 2025

Crynodeb o'r Swydd

Helpu i Siapio Dyfodol Gofal Plant ym Mlaenau Gwent!

Ymunwch â ni i gael effaith barhaol ar fywydau plant, teuluoedd, a'r gymuned leol trwy ofal plant hygyrch o ansawdd uchel. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn chwilio am Swyddog Datblygu Gofal Plant rhagweithiol ac angerddol i arwain twf ac arloesedd gwasanaethau gofal plant yn yr ardal. Mae'r rôl gyffrous hon yn cynnig y cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiad gofal plant fforddiadwy o'r safon uchaf, gan sicrhau bod teuluoedd lleol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt wrth yrru lles economaidd a chymdeithasol yr ardal.

Hysbyseb Lawn

Fel Swyddog Datblygu Gofal Plant, byddwch wrth galon trawsnewid y dirwedd gofal plant ym Mlaenau Gwent. Mae hon yn rôl gyffrous, amrywiol lle nad oes dau ddiwrnod yr un peth. Byddwch yn gyrru datblygiad gwasanaethau gofal plant newydd, o feithrinfeydd dydd i glybiau y tu allan i oriau ysgol, ac yn helpu darparwyr presennol i dyfu a ffynnu. Dychmygwch y wefr o gefnogi darpar entrepreneuriaid wrth iddynt agor busnesau gofal plant newydd, eu harwain trwy gofrestru, a'u gweld yn llwyddo.

Byddwch yn chwaraewr allweddol wrth hyrwyddo gofal plant Cymraeg, gan gael effaith uniongyrchol ar dwf diwylliannol y gymuned. Byddwch yn cael y cyfle i ddylunio a lansio ymgyrchoedd marchnata creadigol i recriwtio gwarchodwyr plant yn yr ardaloedd sydd eu hangen fwyaf, gan sicrhau bod teuluoedd ym mhobman yn cael mynediad at ofal fforddiadwy o ansawdd uchel. Bydd eich dylanwad yn ymestyn i hyfforddiant a datblygu'r gweithlu, lle byddwch yn sicrhau bod gweithwyr gofal plant proffesiynol yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i ffynnu. P'un a ydych yn trefnu digwyddiadau rhwydweithio cyffrous i rannu arferion gorau neu'n gweinyddu grantiau i roi'r hwb sydd ei

angen ar ddarparwyr, bydd eich gwaith yn llywio dyfodol gofal plant yn y rhanbarth. Mae'r rôl hon yn gyfuniad perffaith o strategaeth, creadigrwydd, ac effaith uniongyrchol ar y gymuned, gan gynnig cyfleoedd diddiwedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Amdanoch chi

Rydych chi'n rhywun sy'n angerddol am wneud gwahaniaeth ac yn credu yng ngrym gofal plant o ansawdd uchel i newid bywydau. Mae gennych chi ddealltwriaeth gref o'r sector gofal plant, ond yn bwysicach fyth, rydych chi'n gyffrous i rannu eich gwybodaeth a chefnogi eraill ar eu taith. Boed hynny'n helpu darparwyr newydd i gychwyn neu'n cefnogi gwasanaethau sefydledig i dyfu, rydych chi'n ymfalchïo mewn gweld eraill yn llwyddo.

Rydych chi'n wych gyda phobl - o roi cyngor i weithwyr gofal plant proffesiynol, i gydweithio â phartneriaid cymunedol, rydych chi'n mwynhau meithrin perthnasoedd a chreu cysylltiadau. Rydych chi'n hyderus i reoli tasgau a phrosiectau lluosog, ac rydych chi'n ffynnu mewn amgylchedd deinamig, cyflym lle mae pob dydd yn dod â heriau newydd. Hefyd, rydych chi bob amser yn chwilio am ffyrdd o fod yn greadigol a dod o hyd i atebion arloesol.

Yn bennaf oll, rydych chi'n rhywun sy'n wirioneddol yn poeni am y gymuned leol ac sydd am gael effaith barhaol. Os yw hynny'n swnio fel chi, byddem wrth ein bodd yn eich cael fel rhan o'r tîm!

Amdanom ni

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gofal plant hygyrch o ansawdd uchel i bob teulu. Rydym yn credu yng ngrym cydweithio, arloesi, a gwelliant parhaus i wneud ein gwasanaethau y gorau y gallant fod. Rydym yn ymfalchïo mewn diwylliant o gynwysoldeb, gwaith tîm, a pharch, lle bydd eich sgiliau a'ch syniadau'n cael eu gwerthfawrogi, a lle bydd eich datblygiad gyrfa yn cael ei gefnogi.

Dyma ychydig o'r hyn rydym yn ei gynnig:

Cyflog Cystadleuol:

Rydym yn cynnig pecyn cyflog cystadleuol i gydnabod eich sgiliau a'ch arbenigedd.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Rhagorol:

Mwynhewch dawelwch meddwl gyda'n buddion pensiwn cadarn.

Dysgu a Datblygu Parhaus:

Rydym yn cefnogi datblygiad eich gyrfa trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus.

Lwfansau Gwylliau Blynyddol hael:

Mwynhewch ddigon o amser i ffwrdd i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Amgylchedd Gwaith Cefnogol:

Ymunwch â thîm sy'n gwerthfawrogi eich cyfraniad ac sy'n meithrin diwylliant cydweithredol a chynhwysol yn y gweithle.

Cymerwch y cam nesaf yn eich gyrfa a helpwch i lunio dyfodol gofal plant ym Mlaenau Gwent. Gwnewch gais nawr a byddwch yn rhan o rywbeth gwerth chweil!

Eisiau gofyn cwestiwn i ni?

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol, cysylltwch â:

Martine Redfern | Martine.Redfern@blaenau-gwent.gov.uk | 01495 340301

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch **Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

Dyddiad Cau: 24/10/2024 – 12:00am, hanner nos

Dyddiad Cyfweld: I'w gadarnhau